



Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru

Coleg Penybont

Mawrth 2021

Y canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau QAA am Goleg Penybont

Rhoddodd tîm adolygu QAA y beirniadaethau canlynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Penybont.

- **Gellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.**
- **Gellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.**

Y meysydd sydd angen eu datblygu

Canfu'r tîm adolygu'r **meysydd canlynol sydd angen eu datblygu** yng Ngholeg Penybont sydd â'r potensial i wella ansawdd a/neu i sicrhau ymhellach bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy ac/neu yn gymaradwy. Mae'r tîm adolygu o'r farn y byddai'n fuddiol i Goleg Penybont:

- sicrhau bod manylebau rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson yn bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu (FHEQ).

Yr adolygiad hwn

Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 9 a 10 Mawrth 2021 a chafodd ei weithredu gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro Alan Howard
- Diane Rainsbury
- Dr Harry Williams (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Nod cyffredinol Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru yw:

- rhoi barn arbenigol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am barodrwydd y darparwr i fynd i mewn i'r sector addysg uwch, neu i barhau i weithredu ynddo.

Lluniwyd y broses Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru i:

- sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr yn cael eu diogelu
- roi cyngor arbenigol er mwyn sicrhau bod enw da system addysg uwch y DU yn cael ei ddiogelu, gan gynnwys diogelu safonau graddau
- ganfod meysydd sydd angen eu datblygu a fydd yn helpu'r darparwr i symud ymlaen drwy gyfnod datblygiadol a chael ei ystyried yn ddarparwr 'sefydledig'.

Mae pob adolygiad yn ystyried trefniadau'r darparwr yn erbyn agweddau perthnasol o'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol, ac mae'n ystyried y canlynol yn arbennig:

- dibynadwyedd y safonau graddau a'u gallu rhesymol i gael eu cymharu â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill
- ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r myfyrwyr lle mae gan y darparwr hanes o ran darpariaeth addysg uwch.

Yr effaith a gafodd y pandemig COVID-19

Yn sgil y pandemig COVID-19, gweithredwyd yr adolygiad ar-lein ac, yn rhan o hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag uwch dimau rheoli, staff addysgu a myfyrwyr. Mae cwmpas y dystiolaeth a ystyriwyd, a natur y beirniadaethau a'r cerrig milltir gweithredol wedi aros yr un fath, ond gwnaed rhai addasiadau am ei fod yn digwydd ar-lein. Gwnaethpwyd asesiad risg cyn yr adolygiad i ganfod a lleihau unrhyw risgiau posibl.

Ynghylch Coleg Penybont

Mae Coleg Penybont (y Coleg) yn goleg addysg bellach sydd ag oddeutu 10,000 o fyfyrwr llawn amser a rhan amser, ac mae ganddo oddeutu 700 o aelodau o staff ar draws pum campws ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pencoed, Queen's Road, Maesteg a Chaerdydd. Ar hyn o bryd, mae ganddo 632 o fyfyrwr addysg uwch, ac mae 622 ohonynt yn astudio ar raglenni sy'n rhan o gwmpas yr adolygiad hwn.

O ran rhaglenni Prifysgol De Cymru, mae 341 o fyfyrwr yn astudio ar: raglenni Cenedlaethol Uwch mewn Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, Astudiaethau Busnes, Peirianeg, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal; graddau sylfaen mewn Seicoleg, Gofal a Cherddoriaeth; rhaglenni BA (atodol) ym meysydd Busnes ac Addysg; a rhaglen Tystysgrif Broffesiynol mewn Hyfforddiant ac Addysg Ôl-orfodol (PcET). O ran rhaglenni Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mae 49 o fyfyrwr yn astudio ar y rhaglenni BSc mewn Gwaith Cymdeithasol a FdSc mewn Hyfforddi Chwaraeon. O ran rhaglenni Pearson, mae 242 o fyfyrwr yn astudio ar raglenni HND mewn Adeiladu, Peirianeg a Chyfrifiadureg.

Dros bum mlynedd, dyma oedd y data a gadarnhawyd am y nifer a gwblhaodd yn llwyddiannus ym mlwyddyn academiaidd 2019-20: cadwyd 97%, cwblhaodd 93% yn llwyddiannus, a chwblhaodd 90%.

Y maes beirniadaeth: Dibynadwyedd y safonau academaidd a'u gallu i gael eu cymharu

Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)

Ar gyfer y rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio i'r Coleg gan ei sefydliadau partner, gan y sefydliadau hyn mae'r cyfrifoldeb pennaf am osod y safonau ansawdd, fel yr esbonnir yn y dogfennau a ddarparwyd am y gynghrair strategol. Mae'r cytundebau hyn yn amlinellu'r cyfrifoldebau'n glir sydd gan bob partner ac, mae'r Coleg yn cytuno, fel sefydliad darparu, i lynu at eu prosesau sicrhau ansawdd hwy. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig iddynt) y rheoliadau, trefnau gweinyddu priodol wrth gofrestru myfyrwyr a gweithredu arholiadau, a chyflwyniad adroddiadau blynyddol a gwybodaeth arall fel y bo'r gofyn.

Mae manylebau rhaglenni a llawlyfrau ar gyfer dyfarniadau a ddilysir gan y ddwy brifysgol yn dangos eu bod wedi eu gosod ar y lefel academaidd ofynnol gyda chanlyniadau dysgu sy'n alinio â'r FHEQ sydd wedi eu diffinio'n glir ac sydd hefyd wedi eu mapio yn erbyn modiwlau unigol.

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC)

Mae manylebau a llawlyfrau'r rhaglenni'n cynnwys cyfeiriadau priodol at FfCChC, yn ogystal â'r FHEQ, ac roedd y staff yn gallu siarad yn wybodus am y ffordd yr oedden nhw'n gweithredu'r pwyntiau cyfeirio hyn wrth gynnal safonau academaidd. Am fod y rhaglenni hyn wedi eu hetholfreinio i'r Coleg, gan y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu y mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a chymeradwyo rhaglenni (yn cynnwys manylion y canlyniadau dysgu a fwriedir a'r aliniad priodol â'r FHEQ a FfCChC), ynghyd â'r safonau gofynnol.

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y safonau trothwy ar gyfer ei gymwysterau'n gyson â'r fframweithiau cymwysterau cenedlaethol sy'n berthnasol iddynt.

1 Mae'r Coleg yn gweithio gyda thri chorff dyfarnu, sef Prifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Pearson, a gan y corff dyfarnu perthnasol y mae'r cyfrifoldeb pennaf am safonau'r dyfarniadau academaidd. Mae pob dyfarniad yn atebol i reoliadau academaidd a fframweithiau sicrhau ansawdd manwl y corff dyfarnu perthnasol, ac mae pob un yn darparu fframwaith effeithiol i sicrhau bod y safonau rhagnodedig yn gredadwy ac yn gweithio'n gadarn.

2 Am fod y rhaglenni hyn wedi eu hetholfreinio i'r Coleg, gan y cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu y mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a chymeradwyo rhaglenni (yn cynnwys manylion y canlyniadau dysgu a fwriedir a'r aliniad priodol â'r FHEQ a FfCChC), ynghyd â'r safonau gofynnol. Mae'r Coleg yn gyfrifol am gynnal ansawdd a safonau drwy ei addysgu a'i asesu yn unol â manylebau'r rhaglenni a thrwy asesu yn erbyn y canlyniadau dysgu a fwriedir a'r meini prawf marcio cysylltiedig. Mewn perthynas â Pearson, mae gan y Coleg gyfrifoldeb uniongyrchol am friffiau aseiniadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar y manylebau gan Pearson.

3 Mae manylebau a llawlyfrau'r rhaglenni a disgrifwyr y modiwlau ar gael i'r myfyrwyr; gallent gyrru rhai o'r rhain yn uniongyrchol drwy wefan y brifysgol gyda chyfeiriadau priodol at y FHEQ a FfCChC, yn y drefn honno. Nododd y tîm adolygu bod rhai hepgorion bychain mewn perthynas â dyfarniadau Pearson lle'r oedd hi'n ymddangos bod gwybodaeth yn wasgaredig mewn amrywiol ffynonellau a bod rhai heb eu cynnwys a/neu heb eu rhoi yn eu cyd-destun

ym manyleb y rhaglen ei hun. Felly, tynnodd y tîm adolygu sylw at **faes penodol sydd angen ei ddatblygu** er mwyn sicrhau bod manylebau rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson yn bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu (FHEQ).

4 Roedd tystiolaeth gadarn o gydymffurfio'n effeithiol â'r meysydd hynny lle mae'r Coleg wedi dirprwyo cyfrifoldeb, ac yn benodol mewn perthynas â chynnal safonau academiaidd, ac roedd y staff yn gyfarwydd â'r gofynion hynny. Dangosodd timau academiaidd y Coleg ymgysylltiad agos a gweithredol gyda'i gyrff dyfarnu drwy ystod o gyfleoedd datblygiad staff a gweithgareddau cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gofynion a'r confensiynau asesu. Yn ogystal, roedden nhw'n gallu cymharu yn erbyn colegau eraill o fewn rhwydwaith y partner etholfraint a rhwydweithiau colegau ehangach.

5 Mae pob un o'r cyrff dyfarnu'n darparu rhestr wirio o gyfrifoldebau sy'n cynnwys disgrifiad manwl o gyfrifoldebau gweithredol y Coleg am safonau academiaidd drwy ei addysgu a'i asesu, yn unol â'r gofynion hynny. Dangosodd y Coleg ei fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gynnal safonau academiaidd a gwybodaeth weithredol effeithiol o ddefnyddio'r meini prawf a'r prosesau cysylltiedig.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn sicrhau bod y myfyrwyr y dyfernir cymwysterau iddynt yn cael y cyfle i gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy sy'n cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU.

6 Mae gweithrediad cyson y Coleg o brosesau ei gorff dyfarnu, yn cynnwys y trefniadau marcio a safoni a'r ystyriaeth i bwyntiau cyfeirio allanol priodol, yn dangos cysondeb yn safonau'r dyfarniadau a chyflawniadau ei fyfyrwyr, a'r ffaith bod modd eu cymharu â'i gilydd. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y cyrsiau'n cwrdd â'r safonau trothwy sydd i'w cael yn y FHEQ ac mae'r safonau a gyflawnwyd yn gymaradwy â rhaglenni cyfatebol ac â'r safonau a gydnabyddir gan y sector. Roedd yr aelodau o staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n siarad yn wybodus am y disgwyliadau o ran cynnal safonau a'r mecanweithiau i'w bodloni, a rhoesant enghreifftiau o'u hymgysylltiad ehangach wrth weithredu safonau drwy gymryd rhan yn rhwydweithiau'r sector a'r cyrff dyfarnu. Roeddent o'r farn bod data am gynnydd a chwblhad myfyrwyr fesul rhaglen, yn ogystal â ffynonellau data allanol cymharol eraill, yn ddefnyddiol fel pwyntiau cyfeirio i sicrhau bod y canlyniadau a gyflawnir mewn asesiadau'n cyfateb â'r safonau yn y sector.

7 Gan y cyrff dyfarnu perthnasol y mae'r cyfrifoldeb am osod safonau a'r Coleg sy'n gyfrifol am gynnal y safonau hynny. Mae llawlyfrau'r rhaglenni'n nodi'r canlyniadau dysgu a osodwyd gan y corff dyfarnu. Defnyddir y canlyniadau dysgu, y dulliau asesu a'r meini prawf asesu cysylltiedig i fesur cyflawniad y myfyrwyr ar y lefel trothwy ac yn uwch, ac maent yn cymharu'n rhesymol â'r rheiny a gyflawnir gan fyfyrwyr darparwyr eraill yn y DU. Dangosodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r safonau gofynnol, gan gyfeirio at y berthynas waith agos sydd gan y Coleg gyda'i gyrff dyfarnu, a rôl y staff o ran diweddarau a datblygu, fel dulliau pwysig o sicrhau bod gan y staff academiaidd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i weithredu'r gofynion hyn yn eu gwaith. Gwelwyd tystiolaeth gadarn o effeithiolrwydd am fod y broses o farcio a safoni safonau'n cael ei gweithredu'n gywir. Roedd y trefniadau oedd yn llywio dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle'n cyfateb â gofynion y corff dyfarnu perthnasol.

8 Mae'r adborth manwl a roddir ar asesiadau, a'r arweiniad a'r oruchwyliaeth academiaidd agos, yn galluogi i'r myfyrwyr gyrraedd safonau sy'n uwch na'r lefel trothwy. Penodir arholwyr allanol gan y corff dyfarnu perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu cynnal ac yn cwrdd â'r safon trothwy sy'n berthnasol i lefel y dyfarniad. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau hefyd bod y cymorth academiaidd i fyfyrwyr yn eu galluogi i gyflawni.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod safonau ei ddyfarniadau'n sicr ac yn ddibynadwy, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pwy bynnag sy'n eu darparu.

9 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth ag amrediad eang o gyflogwyr, naill ai drwy raglenni cenedlaethol uwch confensiynol a ddarperir mewn cydweithrediad â'r brifysgol ddyfarnu berthnasol neu'r rheiny sy'n rhan o ddysgu seiliedig ar waith lle mae'r darparwr yn uniongyrchol gyfrifol i Pearson. Yn llywodraethu'r trefniadau priodol ar gyfer sicrhau safonau'r dyfarniadau mae fframweithiau rheoleiddiol a gweithdrefnol y ddwy brifysgol sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol, neu sy'n rhan o fframwaith dysgu seiliedig ar waith y Coleg, ac mae gan Pearson y cyfrifoldeb pennaf am safonau.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn defnyddio arbenigedd allanol, ac yn defnyddio prosesau ar gyfer asesu a dosbarthu sy'n ddibynadwy, yn deg ac yn eglur.

10 Mae'r Coleg yn dilyn polisiau a phrosesau asesu ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu, ac mae gan bob un ofynion manwl yn llywio ail farcio, safoni, dosbarthu a lliniaru. Y prifysgolion dyfarnu hefyd sy'n gosod y meini prawf asesu a gan y Coleg mae'r cyfrifoldeb am asesu. Mewn perthynas â Pearson, y Coleg sy'n datblygu briffiau aseiniadau.

11 Mae safoni'n sicrhau bod modd cymharu gwaith gyda'r canlyniadau dysgu a fwriedir a'r meini prawf marcio perthnasol, gan sicrhau bod yr asesiadau'n deg a dibynadwy ac yn gweithio'n effeithiol. Hefyd, defnyddir meincnodi asesiadau'n effeithiol i sicrhau bod y safonau marcio'n gyson ar draws y gwahanol safleoedd. Gwelwyd tystiolaeth fod y prosesau ail farcio a safoni'n gweithio'n effeithiol a gwelwyd nodiadau cadarnhaol mewn adroddiadau gan arholwyr allanol.

12 Mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, dangosodd y staff eu bod yn deall yn glir sut i weithredu'r prosesau hyn wrth weithio a phwysigrwydd rôl yr arbenigwyr allanol mewn asesu a safoni, yn arbennig mewn perthynas ag adroddiadau'r arholwyr a'r cyrff dyfarnu. Soniodd aelodau o'r staff hefyd eu bod yn ystyried eu cysylltiad gweithredol â'r cyrff dyfarnu'n gryfder oedd yn eu galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau ymgynghorol am asesiadau ac i gyfranogi yn y broses o ddilysu a dosbarthu penderfyniadau. Roedd adroddiadau arholwyr allanol yn dangos mor ddibynadwy, dilys a chyson oedd y safonau marcio.

13 Mae gan y Coleg brosesau effeithiol ar gyfer ystyried ac ymateb i adroddiadau arholwyr allanol ac maent yn nodi ac yn ymdrin yn eglur â champau gweithredu ac ymatebion. Mae'r Coleg yn defnyddio'r adborth yn adroddiadau'r arholwyr allanol i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar unwaith sydd i gael eu gweithredu gan yr Arweinydd Rhaglen (anfonir yr ymateb i'r cyrff dyfarnu) a chânt eu hailadrodd ymhellach yn y broses flynyddol o adrodd am y cyrsiau a monitro'r rhaglenni.

14 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael i gynrychiolwyr y myfyrwyr ac mae cyfle i'r cynrychiolwyr hyn gyfrannu at ymatebion a chynlluniau gweithredu drwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd pwyllgorau'r cyrsiau. Er bod y myfyrwyr yn deall rôl yr arholwyr allanol, doedden nhw ddim yn gwybod yn union sut i gael gafael arnyn nhw.

15 Cadarnhaodd y myfyrwyr eu bod yn derbyn adborth ffurfiannol a chrynodol manwl a bod disgwyliadau'r asesiadau'n glir ac yn hygyrch iddynt, er eu bod nhw'n llai clir ynglŷn â rôl ffurfiol y manylebau rhaglenni.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud â safonau'n rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

16 Mae'r Coleg yn dibynnu'n drwm ar bolisiau a fframweithiau gweithdrefnol ei gyrff dyfarnu i allu mynd ati'n effeithiol i gyflawni ei gyfrifoldebau am gynnal safonau academiaidd. Ategir hyn gan reolaeth effeithiol a phrosesau llywodraethu academiaidd ymgynghorol i fonitro datblygiad academiaidd a chyfraddau cwblhau'r myfyrwyr, er mwyn ymateb i arbenigedd allanol ac arferion gweithredol yn cynnwys peri newidiadau i'w brosesau a'i arferion ei hun. Mae hefyd fecanweithiau clir sydd wedi eu sefydlu'n dda i dynnu sylw at broblemau a'u datrys, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â safonau academiaidd drwy'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd, y Bwrdd Adolygu Cwricwlwm, a'r Byrddau Gwella Ansawdd. Mae'r Coleg yn derbyn ac yn ystyried data'n rheolaidd am ddatblygiad a chyfraddau cwblhau pob carfan o fyfyrwyr a hynny drwy ei bwyllgorau ymgynghori, ei strwythurau rheoli a'i weithgareddau sicrhau ansawdd cylchol. Mae hyn yn cynnwys data at ddibenion cymharu gan wahanol garfannau myfyrwyr a safleoedd.

Y Disgwyliadau o ran Safonau sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

17 Dangosodd y Coleg fod y gofynion manwl am sicrhau ansawdd a'r gofynion academiaidd rheoleiddiol manwl am gynnal safonau academiaidd wedi eu gweithredu'n gyson, gan gynnwys rhai ei gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu.

Y feirniadaeth

18 Archwiliodd y tîm y ddogfen hunanwerthusiad, cyflwyniad y myfyrwyr a'r dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan y Coleg. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr, aelodau uwch o'r staff, staff academiaidd a staff cymorth, a chynrychiolwyr y gyrff dyfarnu. O ganlyniad, dyma oedd barn y tîm adolygu:

19 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn rhesymol gymaradwy.

Y maes beirniadaeth: Ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr

Yr Arferion Craidd a'r Arferion Cyffredin sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr system dderbyn sy'n deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

20 Mae'r Coleg yn darparu rhaglenni ar etholfraint a ddyfemir gan ddwy brifysgol – Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd – a rhaglenni Cenedlaethol Uwch a ddyfemir gan Pearson. Mae'r Coleg yn gyfrifol am farchnata a recriwtio myfyrwyr ar gyfer rhaglenni Pearson ac ar gyfer rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio iddo gan Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae Polisi Derbyn y Coleg yn tanategu ei ddull o sicrhau bod ei system dderbyn yn deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol.

21 Mae gwybodaeth am y cyrsiau ar gael i ddarpar fyfyrwyr yn y Canllaw Cyrsiau Addysg Uwch neu ar wefan y Coleg ac fe'u hanogir i fynd i ddiwrnod neu noson agored cyn iddynt ymgeisio am le yn y Coleg.

22 Gwneir ceisiadau'n uniongyrchol i'r Coleg neu drwy UCAS. Yn dilyn cyfweiliad, mae'r ymgeiswyr yn derbyn naill ai gynnig amodol neu gynnig diamod neu cânt eu cyfeirio i gael cyngor ac arweiniad os ydynt yn aflwyddiannus. Mae'r Coleg yn gweithredu ei bolisi ei hun i gydnabod dysgu blaenorol ar gyfer rhaglenni Pearson, ac mae'n dilyn polisiau ei brifysgolion partner ar gyfer rhaglenni ar etholfraint. Mae'r Polisi Derbyn yn amlinellu trefniadau ar gyfer myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol ac mae hwn yn rhoi tystiolaeth i ddangos bod proses dderbyn y Coleg yn gynhwysol. Mae proses apelio i ymgeiswyr sy'n anfodlon â'r broses ymgeisio.

23 Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, cyflwynir dogfennaeth allweddol sy'n cynnwys llawlyfrau cwrs, amserlenni ac amseriadau ar gyfer asesiadau. Roedd y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm â nhw'n canmol y gefnogaeth wedi ei phersonoli y mae'r Coleg yn ei chynnig gydag ymgeisio. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol i ymgeiswyr hŷn oedd â chymwysterau ansafonol ac a oedd yn dychwelyd i addysg ac/neu oedd yn gobeithio cyfuno astudio gyda gweithio'n rhan amser neu'n llawn amser.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn llunio a/neu'n darparu cyrsiau o safon uchel.

24 Mae cytundebau wedi eu llofnodi'n nodi'r cyfrifoldebau perthnasol am amrywiol agweddau o'r broses o ddarparu'r rhaglenni a dilyni'r rheoliadau academiaidd a fframweithiau asesu'r ddwy brifysgol a Pearson. Nid yw'r Coleg yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses o ddatblygu rhaglenni sydd wedi eu hetholfreinio iddo, ond mae modd iddo ofyn am wneud addasiadau bychain i fodiwlau, megis i asesiadau. Staff yn y meysydd cwricwlwm sy'n llunio strwythur rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson ac mae'r uwch dîm rheoli'n eu cymeradwyo. Wrth ddatblygu'r portffolio o raglenni Cenedlaethol Uwch, mae'r Coleg wedi ystyried anghenion y diwydiant yn yr ardal.

25 Mae manylebau'r rhaglenni a ddarperir ar etholfraint yn cynnwys gwybodaeth fanwl sy'n cynnwys amlinelliad o d dulliau addysgu ac asesu megis darlithoedd, seminarau, sesiynau tiwtora, a, lle bo'n briodol, gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith. Ar gyfer rhaglenni Pearson, nid yw'r Coleg wedi cynhyrchu manyleb rhaglen, i bob rhaglen yn unigol, neu wedi eu cyfuno i'r portffolio o raglenni Cenedlaethol Uwch – yn wahanol i ofynion y partner sy'n dyfarnu'r radd. Dywedodd aelodau uwch o'r staff wrth y tîm adolygu y dylid ystyried ffynonellau gwybodaeth megis y llawlyfr cwrs a briffiau aseiniadau cyd-destunol fel manylebau'r rhaglenni. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys rhai o'r elfennau y mae'n ofynnol eu cynnwys ym manylebau rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson.

Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad mai un **maes penodol sydd angen ei ddatblygu** yw sicrhau bod manylebau rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson yn bodloni gofynion y sefydliad dyfarnu (FHEQ).

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr nifer ddigonol o staff sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau priodol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

26 Mae 86 o staff addysgu'n cyfranogi yn y broses o ddarparu rhaglenni addysg uwch, yr oedd 718 o fyfyrwyr (257 llawn amser; 462 rhan amser) wedi eu cofrestru arnynt yn 2019-20. Mae 27 o aelodau staff yn addysgu ar raglenni addysg uwch yn unig. Mae'r gyfran o staff addysgu sy'n siarad Cymraeg yn adlewyrchu'r boblogaeth leol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n rhaid i'r staff sy'n addysgu ar raglenni ar etholfraint gael eu cymeradwyo gan y brifysgol berthnasol ac mae'n rhaid i'r holl athrawon sy'n addysgu ar raglenni a gymeradwyir gan Brifysgol De Cymru gael eu cydnabod fel athrawon y brifysgol honno. Cefnogir y staff i wneud cais am statws Cymrawd Advance HE. Mae 16 o aelodau staff wedi sicrhau statws Cymrawd neu Uwch Gymrawd ac mae 11 yn y broses ar hyn o bryd.

27 Pennir cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r broses o adolygu datblygiad perfformiad y staff. Mae cyfleoedd ar gael i'r staff wneud gwaith ymchwil a chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgolheigaidd a chânt eu cefnogi yn eu datblygiad gan hyfforddwyr dysgu ac addysgu ar lefel y coleg. Mae'r aelodau o staff addysgu y cyfarfu'r tîm â nhw'n gwerthfawrogi'n arbennig y rhyngweithio â staff y prifysgolion a'r cyfleoedd datblygiad yn y gwaith y mae hyn yn ei sicrhau. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am ansawdd yr addysgu a'r cymorth a ddarperir gan y staff, ac mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac arolygon Cenedlaethol Uwch Pearson yn adlewyrchu hynny.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

28 O ran argaeledd y cyfleusterau priodol, adnoddau dysgu a chymorth i fyfyrwyr, gwneir gwiriad o hyn wrth ddilysu'r rhaglen a bydd yn cael ei fonitro drwy'r prosesau adolygu rhaglenni a chasglu adborth gan fyfyrwyr. Mae manau astudio ac addysgu penodol ar gael i fyfyrwyr addysg uwch ac mae'r canolfannau llwyddiant ar y campysau'n cynnwys adnoddau dysgu mewn print ac ar-lein, cyfleusterau cyfrifiadurol a chyfrifiaduron i'w benthyg. Mae'r hyfforddwyr sgiliau wedi eu seilio yn y canolfannau llwyddiant ac mae'r rhain yn darparu cymorth gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd a sgiliau astudio. Darperir rhagor o gyngor ac arweiniad gan dîm lles y myfyrwyr. Mae gan bob maes cwricwlwm ystafelloedd addysg uwch penodol a chyllideb i'w gwario ar adnoddau dysgu. Bydd y myfyrwyr yn cyrchu deunyddiau dysgu drwy'r rhith-amgylchedd dysgu ac mae ystod o adnoddau ar-lein ar gael iddynt. Gall y myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni ar etholfraint gyrchu adnoddau dysgu a llyfrgelloedd y prifysgolion hefyd. Ym mis Medi 2021, bydd adeilad newydd yn agor ar gyfer nifer o feysydd y cwricwlwm addysg uwch, sef peirianeg, y gwyddorau, technoleg gwybodaeth a'r celfyddydau digidol. Mae boddhad y myfyrwyr gyda'r adnoddau dysgu'n gryf ar y cyfan (roedd 85% yn fodlon yn 2020) ac mae'r myfyrwyr yn ystyried bod y Coleg yn ymatebol lle gwneir ceisiadau rhesymol am adnoddau ychwanegol ar gyfer cyrsiau. Felly, mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Coleg gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cefnogi myfyrwyr sy'n briodol ac yn ddigonol i ddarparu profiad academaidd o safon uchel.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cymryd camau i gynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

29 Mae Strategaeth Llais Myfyrwyr y Coleg yn disgrifio amrywiol fecanweithiau ar gyfer cynnwys y myfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o sicrhau a gwella ansawdd eu profiad

addysgol. Gwneir arolygon dysgwyr ddwywaith y flwyddyn sy'n edrych ar bob agwedd o brofiad y myfyrwyr. Adroddir y canlyniadau i'r Byrddau Adolygu Cwricwlwm a'r Corff Llywodraethu. Trefnir arolygon o daith y dysgwr yn rhan o'r cylch ansawdd blynyddol ac mae'r rhain yn hwyluso ymgysylltiad yr aelodau uwch o staff â myfyrwyr o fewn ac oddi allan i'r ystafell ddosbarth. Ar lefel y cyrsiau, mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda'r staff, ac mae'r Corff Llywodraethu llawn yn cynnwys llywodraethwr sy'n fyfyrwr addysg uwch. Darparwyd tystiolaeth i gadarnhau bod y Coleg yn cymryd pryderon o ddifrif ac yn gweithio'n galed i'w datrys pan fydd myfyrwyr yn mynegi pryder am ansawdd eu profiad addysgol.

Yr arferion craidd: Mae gan y darparwr weithdrefnau teg ac eglur sydd ar gael i'r myfyrwyr i gyd, ar gyfer ymdrin â chwynion ac apeliadau.

30 Mae trefn gwyno'r Coleg yn cynnwys pedwar cam –o ateb anffurfiol hyd at y cam apelio, a phenderfyniad y Pennaeth yw'r cam olaf ym mhroses y Coleg. Mae'r drefn gyhoeddedig yn cynnwys amseriadau dangosol a gall myfyrwyr sy'n anfodlon gyda phenderfyniad terfynol y Coleg gymryd eu cwyn at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Cedwir cofnod o gwynion, a chafodd 11 eu cofnodi a'u datrys rhwng 2018 a 2020. Nid oes unrhyw fyfyrwr wedi cymryd cwyn heb ei datrys i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

31 Mae gan y Coleg Bolisi a Threfn Apelio i fyfyrwyr sy'n astudio ar raglenni Cenedlaethol Uwch Pearson ac mae rheoliadau'r prifysgolion yn berthnasol i'r rhaglenni ar etholfraint. Mae'r Polisi a Threfn Apelio'n disgrifio'r broses ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau asesu, ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau staff ac amseriadau dangosol. Gall y myfyrwyr nad ydynt yn fodlon â chanlyniad apêl gwyno drwy Drefn Gwyno'r Coleg. Mae'r myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth am y prosesau cwyno ac apelio yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n eu darparu mewn amgylcheddau ymchwil sy'n addas ac yn gefnogol.

Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil.

Yr arferion craidd: Lle mae'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, mae ganddo drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag neu sut bynnag y darperir y cyrsiau neu pw y bynnag sy'n eu darparu.

32 Mae dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gweithle'n rhannau annatod o lawer o raglenni addysg uwch a ddarperir gan y Coleg, yn cynnwys ei raddau sylfaen. Mae gan y Coleg dîm penodol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith sy'n goruchwyllo'r prosesau ar gyfer canfod a dethol darparwyr lleoliadau gwaith, gwneud ymweliadau cychwynnol â'r safleoedd, a chwblhau asesiadau risg a gweithdrefnau iechyd a diogelwch eraill. Llofnodir cytundeb gyda phob darparwr lleoliad gwaith sy'n nodi manylion cyfrifoldebau perthnasol y Coleg, y myfyrwr a'r darparwr lleoliad gwaith. Mae dogfennaeth y cyrsiau a ddarperir i fyfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys y ffordd y bydd yr elfen hon o'r rhaglenni'n cael ei hasesu. Mae'r myfyrwyr o'r farn bod y cyfleoedd dysgu seiliedig ar waith yn nodwedd gadarnhaol o brofiad academaidd y myfyrwyr, ac maent yn gwerthfawrogi'r cymorth trefniadol ac academaidd sydd ar gael iddynt. Felly, mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Coleg drefniadau effeithiol i sicrhau bod y profiad academaidd o safon uchel, lle bynnag y darperir yr addysg.

Yr arferion craidd: Mae'r darparwr yn cefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau llwyddiannus ar lefelau academaidd a phroffesiynol.

33 Mae gan y Coleg drefniadau ac adnoddau effeithiol i gefnogi ei fyfyrwyr i gyd i gael canlyniadau academaidd a phroffesiynol llwyddiannus. Ystyrir cyfathrebu dwy ffordd rheolaidd

yn hanfodol rhwng y tiwtoriaid a'r myfyrwyr er mwyn cefnogi hunanddatblygiad a chyrhaeddiad y myfyrwyr. Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr a disgwylir y bydd cyfarfodydd un-i-un yn digwydd ddwywaith bob semester. Mae sesiwn diwtora mewn grŵp am awr yr wythnos ar yr amserlen i fyfyrwyr llawn amser a defnyddir hon i roi cymorth academaidd megis hyfforddiant mewn sgiliau penodol ac adborth rhag blaen. Mae Canolfan Gyrfaoedd a Mentergarwch ar bob campws yn y Coleg a gall y myfyrwyr fynd yno i gyrchu cymorth ac arweiniad gyrfaoel. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi polisi 'drws agored' y Coleg a'r ffaith bod tiwtoriaid a staff y gwasanaethau proffesiynol yn hawdd eu cyrraedd ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac wrth gyfathrebu drwy e-bost. Roedd myfyrwyr hŷn oedd yn derbyn addysg uwch am y tro cyntaf erioed, ac eraill oedd ag ymrwymïadau gwaith a phersonol, yn canmol y cymorth a gawsent gan y Coleg.

34 Mae'r myfyrwyr yn derbyn amserlen asesu ar ddechrau'r flwyddyn a briff aseiniad manwl a meini prawf marcio ar gyfer pob asesiad. Cefnogir myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy bolisi a gweithdrefn addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig, ac mae cyngor ac arweiniad ar gael i'r myfyrwyr gan dîm lles myfyrwyr. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn dangos bod y staff yn darparu cymorth addysgu rhagorol, yn gosod asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig sy'n ddigon heriol, ac yn rhoi adborth manwl. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac arolygon Cenedlaethol Uwch Pearson yn dangos bod lefel boddhad y myfyrwyr gyda'r addysgu a'r cymorth yn uchel. Yn ystod y pandemig COVID-19, cymerodd y Coleg gamau i gefnogi parhad y dysgu, gan gynnwys darparu gwersi ar-lein a chynnal cyfarfodydd rhithwir gyda'r myfyrwyr.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

35 Mae gan y Coleg gylch ansawdd sydd wedi ei sefydlu'n dda a strwythur pwyllgorau ymgynghori sy'n goruchwyllo'r ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Corff Llywodraethu, y Pwyllgor Safonau, y Byrddau Adolygu Cwricwlwm a chyfarfodydd y Timau Cwrs. Cynhyrchir adroddiadau monitro a chynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer rhaglenni Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, a rhaglenni Cenedlaethol Uwch Pearson. Cesglir data manwl am gynnydd, cwblhad a chyrhaeddiad ac ystyrir y data hwn mewn prosesau monitro ac adolygu a gan dimau cwrs i ganfod ymhle o bosib y bydd angen ymyriadau cymorth i fyfyrwyr. Pan fydd gweithgareddau monitro'n canfod problemau gydag un o'r rhaglenni, gellir sefydlu Bwrdd Gwella Ansawdd i ddatblygu cynllun gweithredu i ysgogi datblygiad. Disgrifiodd aelodau uwch o'r staff enghreifftiau amrywiol o welliant a datblygiadau da oedd wedi codi o weithgareddau adolygu, gan gynnwys darparu manau astudio penodol i fyfyrwyr addysg uwch, gweithdai ar gamymddwyn academaidd ac addasiadau i rai lleoliadau gwaith a ddarperir er mwyn cynyddu'r elfen ymarferol. Felly, roedd y tîm adolygu'n fodlon bod y Coleg yn adolygu ei arferion craidd sy'n ymwneud ag ansawdd yn rheolaidd, a'i fod yn defnyddio'r canlyniadau i ysgogi datblygiad a gwelliant.

Yr arferion cyffredin: Mae dulliau'r darparwr o reoli ansawdd yn cynnwys defnyddio arbenigedd allanol.

36 Mae'r Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol drwy ystyried ac ymateb i adroddiadau arholwyr allanol, a thrwy ddefnyddio adborth gan gyflogwyr yn ystod y broses o gynllunio rhaglenni Cenedlaethol Uwch a'i ddefnyddio fel tystiolaeth mewn adroddiadau cwrs blynyddol a chynlluniau gweithredu. Mae'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd yn craffu ar adroddiadau'r arholwyr allanol a chânt eu trafod gan y timau cwrs sy'n cynllunio'r cwricwlwm i ganfod unrhyw dueddiadau neu broblemau penodol. Mae pwyntiau allweddol o adroddiadau'r arholwyr allanol wedi eu cynnwys mewn adroddiadau a chynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer pob cwrs a phob rhaglen a gynhyrchir ar gyfer darpariaeth y ddwy brifysgol a Pearson. Anfonir ymateb at yr arholwr allanol hefyd.

Yr arferion cyffredin: Mae'r darparwr yn cynnwys ei fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn y prosesau o ddatblygu, sicrhau a gwella ansawdd eu profiad addysgol.

37 Mae'r rhaglenni Cenedlaethol Uwch wedi eu halinio'n agos ag anghenion y cyflogwyr a'r diwydiant yn yr ardal. Dilyniir rheoliadau academiaidd a fframweithiau asesu'r ddwy brifysgol a Pearson ac mae'r rhain yn darparu'r sail ar gyfer gwneud asesiadau dibynadwy o gyflawniad y myfyrwyr. Cadarnheir hyn gan adroddiadau'r arholwyr allanol. Bydd profiad academiaidd y myfyrwyr yn cael ei wirio wrth ddilysu'r rhaglen a'i fonitro'n fanwl drwy brosesau adolygu blynyddol sy'n ofynnol gan y ddwy brifysgol a Pearson. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y cyrsiau y mae'r Coleg yn eu darparu wedi eu llunio'n dda, a'u bod yn rhoi profiad academiaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd, ac yn caniatáu i gyflawniad y myfyriwr gael ei asesu mewn ffordd ddibynadwy.

38 Mae gan y Coleg ymrwymiad strategol i hybu cynwysoldeb ac mae ei drefniadau cryf i gefnogi'r myfyrwyr yn sylfaen i'w ddull o ddarparu addysg uwch. Daw llawer o'i fyfyrwyr o gefndiroedd anhraddodiadol a/neu maen nhw'n gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser. Cefnogir myfyrwyr sydd ag anghenion ychwanegol yn ystod y broses dderbyn a thrwy bolisi a gweithdrefn addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig. Gall y myfyrwyr sicrhau cymorth gan diwtoriaid personol sydd wedi eu haseinio iddynt, y tîm lles myfyrwyr, hyfforddwyr sgiliau, a chynghorwyr gyrfaoedd. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn dangos bod y staff yn darparu cymorth addysgu rhagorol, yn gosod asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig sy'n ddigon heriol, ac yn rhoi adborth manwl. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac arolygon Cenedlaethol Uwch Pearson yn dangos bod lefel boddhad y myfyrwyr gyda'r addysgu a'r cymorth yn uchel. Cesglir data manwl am gynnydd, cwblhad, cyrhaeddiad a chanlyniadau graddedigion a defnyddir y data hwn mewn prosesau monitro ac adolygu. Yn 2019-20, canran y myfyrwyr a gyflawnodd oedd 93% (o'i gymharu â 90% yn 2018-19). Mae'r data am gyrhaeddiad myfyrwyr duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac am fyfyrwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, yn dangos gwelliannau o un flwyddyn i'r nesaf. Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am ganlyniadau graddedigion ar gyfer 2017-18 yn dangos bod 92% o'r graddedigion mewn swydd neu'n gwneud astudiaethau pellach chwe mis ar ôl gadael y Coleg. Felly, mae'r tîm adolygu o'r farn bod y myfyrwyr i gyd, o'r cam derbyn hyd y graddio, yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i lwyddo ym maes addysg uwch ac i elwa o'r addysg uwch.

Y Disgwyliadau o ran Ansawdd sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd)

39 Mae'r cyrsiau a ddarperir gan y Coleg – y rhai a ddatblygir ganddynt a'r rhai a gynigiant ar etholfraint – wedi eu llunio yn ôl gofynion y FHEQ, FfCChC a disgwyliadau perthnasol y Cod Ansawdd. Mae'r cyrsiau'n cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau profiad academiaidd o safon uchel i'r myfyrwyr i gyd ac i sicrhau bod eu cyflawniad yn cael ei asesu'n ddibynadwy. Cadarnheir hyn gan adroddiadau arholwyr allanol ac adborth gan fyfyrwyr.

40 Darperir cymorth academiaidd a bugeiliol priodol i'r myfyrwyr i gyd, gan gynnwys i'r myfyrwyr hynny sydd ag anghenion cymorth unigol, o'r cam derbyn hyd y graddio, er mwyn eu galluogi i lwyddo yn eu hastudiaethau ac elwa o'r addysg uwch yn y Coleg.

Y feirniadaeth

41 Archwiliodd y tîm y ddogfen hunanwerthusiad, cyflwyniad y myfyrwyr a'r dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan y Coleg. Cyfarfu'r tîm hefyd â myfyrwyr, aelodau uwch o'r staff, staff academiaidd a staff cymorth, a chynrychiolwyr y cyrff dyfarnu. O ganlyniad, daeth y tîm adolygu i'r farn isod:

42 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y gellir teimlo **hyder** bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.

Sylwadau am gydymffurfiaeth â'r Safonau Iaith Gymraeg

43 Corff Llywodraethu'r Coleg yw'r prif gorff sydd â'r cyfrifoldeb am faterion academaidd a materion yn ymwneud ag ansawdd. Mae dogfennau allweddol gan y Corff Llywodraethu, er enghraifft, Lawlyfr y Llywodraethwyr, yn dangos bod gan y Coleg ymrwymiad strategol i ddatblygu'r iaith Gymraeg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn cyfarfodydd gydag aelodau uwch o'r staff yn ystod yr ymweliad adolygu, cadarnhawyd dyhead y Coleg i hybu'r iaith Gymraeg, yn fewnol ond hefyd o fewn yr ardal leol.

44 Ar hyn o bryd, mae Coleg Penybont yn cyflogi 771 o aelodau staff – mae 285 ohonynt yn staff addysgu, ac mae 86 yn addysgu ar raglenni addysg uwch. Ymysg y staff addysgu, mae 31 neu 10.8% ohonynt yn nodi bod ganddynt sgiliau lefel uwch neu rugl yn y Gymraeg. Mae'r data am gofrestrriad ar gyfer 2020-21 yn dangos bod 5.6% o'r myfyrwyr addysg uwch yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae canran y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth y Coleg yn weddol gyfatebol i'r ganran ym mhoblogaeth yr ardal leol lle mae'r Coleg.

45 Mae'r Coleg wedi bod yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg ers mis Ebrill 2018. Mae'r Coleg yn goruchwyllo ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Safonau Iaith Gymraeg drwy bedwar grŵp allweddol, sef: Grŵp Llywio'r Gymraeg, y Tîm Darpariaeth Cwricwlwm, Grŵp Gweithredol y Coleg, a'r Criw Cymraeg. Yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg, mae'r Coleg yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu ei ymlyniad â phob un o'r Safonau Iaith Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn arwain at ddatblygu cynllun gweithredu ac adroddir y cynnydd mewn perthynas â'r cynllun hwnnw yn adroddiad hunanwerthusiad blynyddol y Coleg.

46 Mae'r Coleg ei hun wedi nodi'r angen am ddatblygu dull mwy pwrpasol o ddatblygu sgiliau'r timau cwricwlwm er mwyn caniatáu darpariaeth ddwyieithog. I ymdrin â hyn, mae'r Coleg wedi defnyddio ei fenter ddysgu gan gymheiriaid lle mae aelodau o'r staff o bob rhan o'r Coleg yn cydweithio i ddatblygu a rhannu arferion gorau. Yn ystod blynyddoedd academaidd 2019-20 a 2020-21, un o'r themâu ar gyfer y cynllun Trioglau Dysgu oedd y Gymraeg a Dwyieithrwydd, sy'n tystio i ymrwymiad y Coleg i wella argaeledd a gweledd y Gymraeg yn eu darpariaeth. Mae'r Coleg wrthi ar hyn o bryd hefyd yn adolygu meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Astudiaethau Plentyndod, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwasanaethau Brys, ac lechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda'r bwriad o gynyddu nifer y modiwlau addysg uwch a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

47 Mae gan y Coleg ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i alluogi iddo ddarparu ei ddarpariaeth addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond os darperir dogfennaeth yn y Saesneg yn unig, gall cyfieithydd llawn amser y Coleg ddarparu copi Cymraeg ar gais. Gwneir ceisiadau'n uniongyrchol i'r Coleg ac yn ystod y broses honno gall ymgeiswyr ddewis pa iaith i'w defnyddio (y Gymraeg neu'r Saesneg); yna darperir pob cyfathrebiad ysgrifenedig yn eu dewis iaith. Yn ystod eu hastudiaethau, mae'r Coleg yn annog y myfyrwyr yn frwd i sicrhau cymwysterau iaith Gymraeg a, lle bo modd, wneud eu lleoliadau profiad gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

QAA2597- R10874 - Mehefin 21

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2021
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk